Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl**
**Neuadd Iago Sant**
**Maes Iago**
**Pont-y-pŵl**
**Gwent**
**NP4 6JT**

**Dyddiad yr arolygiad: 11 Hydref 2013**

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 8/11/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Pont-y-pŵl yn Neuadd Uchaf Iago Sant sydd yn perthyn i Ystâd Parc Pont-y-pŵl. Fe'i hagorwyd yn 1979. Cafodd yr adeilad ei hadnewyddu'n llwyr yn 2010. Mae wedi'i lleoli yng nghanol tref Pont-y-pŵl a daw mwyafrif o'r plant o'r ardal hon. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989 a chaiff ei gynnal yn unol â chanllawiau cydnabyddedig Mudiad Meithrin. Fe'i rheolir gan Bwyllgor Rheoli.

Mae'r cylch yn darparu gofal ar gyfer plant o'r gymuned leol a'r ardaloedd o'i chwmpas ar bedwar diwrnod yr wythnos o 9.30 tan 12.00 ac o 12.45 tan 3.15 o ddydd Llun tan ddydd Gwener yn ystod tymhorau ysgol. Ar fore dydd Iau fe gynhelir Cylch Ti a Fi yn lle Cylch Meithrin. Cofrestrwyd y lleoliad ar gyfer dau ddeg pedwar plentyn y sesiwn ac roedd dau ddeg naw wedi'u eu cofrestru adeg yr arolygiad. Mae'r cylch yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed ac i fyny ac maent yn gadael pan fyddant yn dechrau eu haddysg statudol fel arfer yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn Onnen, Ysgol Gynradd Gymraeg Panteg neu Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmbrân.

Mae'r adeilad yn cynnwys ystafell fawr iawn sy'n cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau, ymarfer corff a dawns. Mae yno hefyd stordy, cegin a thoiledau addas ar gyfer y plant. Mae ardal fawr ddeniadol iawn tu allan sy'n cynnwys glaswellt llethrog, coed a llwyni aeddfed ynghyd ag ardal fawr gydag arwyneb caled ac mae'n cynnig digon o le i'r plant i chwarae tu allan. Mae ffens o gwmpas yr ardal allanol sy'n sicrhau diogelwch y plant. Ceir mynediad drwy system ddiogel.

Cymraeg yw iaith y lleoliad ac ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg gartref. Adeg yr arolygiad, roedd 17 o blant yn cael eu hariannu ar gyfer darpariaeth addysg ran-amser. Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Caiff pum ymarferwr eu cyflogi gan gynnwys yr arweinydd a gweithia pawb gyda'r plant. Maent i gyd yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol i'r blynyddoedd cynnar ac mae gan yr arweinydd gymhwyster athro trwyddedig. Mae pob un wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant a chymorth cyntaf. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar 18 Medi 2012 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn ym Medi 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda o'u man cychwyn;
- mae'r plant yn teimlo'n hapus a diogel yn y lleoliad;
- y defnydd da iawn a wneir o'r amgylchedd a'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant
- profiadau dysgu gweithredol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y plant;
- safon yr addysgu sy'n gyson dda, a'r
- defnydd effeithiol o asesu drwy arsylwi i gynllunio'r camau nesaf.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- mae diwylliant o fyfyrio proffesiynol yn bodoli sydd wedi ei seilio ar hunan arfarniad;
- safon dda'r arweinyddiaeth;
- ymrwymiad y lleoliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, a'r
- gwaith tîm effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r lleoliad:

A1. Parhau i wella ar fedrau iaith Gymraeg y plant

A2. Gwella ar y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y plant

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

### Safonau: Da

Mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn ac yn cyflawni'n dda yn unol â'u cyfnod datblygu.

Er nad oes gan unrhyw blentyn, gydag un eithriad, unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad, maent oll yn dysgu geiriau, cymalau pob dydd, rhigymau a chaneuon, yn deall cyfarwyddiadau syml ac weithiau'n defnyddio geiriau Cymraeg wrth chwarae. Mae'r mwyafrif yn datblygu geirfa eang ond nid yw pob plentyn yn defnyddio'r Gymraeg pob amser heb anogaeth oedolion.

Mae'r plant i gyd yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn hoffi gwrando ar straeon ac yn trafod llyfrau fel darllenwyr. Dewisant eu hoff straeon ac ymunant gyda rhannau cyfarwydd. Maent oll yn hoffi gwneud marciau y tu fewn a thu allan gan ddangos ymwybyddiaeth dda o bwrpas ysgrifennu. Mae eu medrau rhifedd yn datblygu'n dda ac maent yn rhifo hyd at ddeg gan ddefnyddio'u bysedd ac yn gwneud marciau gyda rhifau wrth chwarae rôl. Mae medrau rhif pob un yn datblygu'n dda pan fyddant yn prynu rhywbeth yn y siop fach a thalu amdano. Maent yn gwneud defnydd hyderus o'r cyfrifiadur, er enghraifft, pan ddefnyddiant y chwyddwydr i edrych yn fanwl ar wrthrychau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn defnyddio tegan rhaglenadwy a chwaraeydd cryno ddisgiau yn hyderus hefyd, ac mae hyn yn eu cynorthwyo i ddatblygu medrau TGCh cynnar da.

**Lles: Da**

Mae gan bawb agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at ddysgu gan gymryd rhan weithredol ac egnïol yn eu profiadau tu fewn a thu allan gan ymddwyn yn dda iawn. Gwna'r holl blant benderfyniadau a dewisiadau pendant ynglŷn â'u dysgu ac y mae bron pob plentyn yn hyderus iawn. Mae'r plant i gyd yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda gyda'u gweithgareddau ac maent oll yn chwarae'n frwd. Maent i gyd yn hapus iawn yn y cylch ac yn mwynhau eu profiadau yno. Rhydd y berthynas agos a chynnes rhwng yr oedolion a'r plant ymdeimlad o ddiogelwch a boddhad iddynt. Mae hunanhyder a hapusrwydd y plant yn dangos eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu a dangosant hwythau, yn eu tro, barch a hoffter tuag at yr oedolion. Mae'r plant yn dangos consyrn tuag at ei gilydd, yr ymarferwyr ac ymwelwyr. Y maent yn gwrtais bob amser a dangosant ystyriaeth tuag at eraill. Gwna'r mwyafrif ffrindiau yn y feithrinfa ac y maent yn hoff iawn o'i gilydd.

Mae pob plentyn yn deall bod bwyta'n iach, hylendid dannedd a chadw'n heini'n bwysig i'w hiechyd ac maent yn glanhau'u dannedd ar ôl byrbryd ac yn enwi bwydydd iach a phethau na ddylent fwyta. Mwynhânt fwyta byrbryd gyda'i gilydd bob dydd ac maent yn ymddwyn yn hyfryd wrth y ford.

Maent oll yn mwynhau yn fawr iawn eu hymweliadau cyson i'r gymuned er enghraifft: y parc; y llyfrgell; yr amgueddfa; y fferm gymunedol; y frigâd dan; yr orsaf heddlu; y farchnad a'r siopau. Elwant yn fawr iawn hefyd ar ymweliadau iddynt gan bobol o'r gymuned megis pobol y frigâd dân a'r heddlu yn ogystal â rhieni sy'n siarad gyda hwynt am eu gwaith.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae safon y cynllunio'n dda. Cyn cynllunio mae'r ymarferwyr yn gwerthuso darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos. Maent yn trafod cyraeddiadau, cynnydd ac anghenion pob plentyn ac yn ystyried yr asesiadau drwy arsylwi a wneir. Maent yn cynnwys y plant yn y cynllunio trwy ofyn iddynt am eu diddordebau a beth maent yn hoffi gwneud; mae hon yn nodwedd dda. Maent yn defnyddio'n dda'r holl wybodaeth hon i fwydo'r cylch nesaf o ddarpariaeth; o ganlyniad, mae'r cynllunio yn ymateb yn dda i ddiddordebau ac anghenion y plant. Cynllunnir ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a gweithredol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio'n hyblyg a gwelwyd yr ymarferwyr yn ei addasu i gwrdd â diddordebau'r plant. Mae'r oedolion yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda ac mewn ffordd sydd yn ystyrlon iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i'r plant i ddatblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, hyderus ac annibynnol ac i ddatblygu medrau creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol da ymhob maes dysgu. Maent yn hyrwyddo datblygiad sgiliau creadigol da drwy ddarparu cyfleoedd i baentio, i fwynhau dawns a defnyddio offer taro i greu miwsig. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd da i archwilio'u hamgylchedd naturiol drwy archwilio yn y parc, cerdded hyd y nant ac ymweld â'r fferm gymunedol.

Mae'r plant yn cael model ragorol o'r iaith Gymraeg gan yr arweinydd a chânt eu hannog yn llwyddiannus gan bob ymarferwr i ymestyn eu hiaith trwy adrodd rhigymau, caneuon a chlywed ac ymateb i ystod eang o straeon sydd yn cynnwys iaith gyfoethog a geirfa eang. Maent yn dathlu diwylliant Cymreig mewn amryw ffyrdd gan gynnwys mynd i'r farchnad leol ar Ddydd Gŵyl Dewi i ganu ac i ddawnsio gwerin a thrwy goginio bwyd Cymreig megis cawl a phicau ar y maen.

## Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad plentyn a datblygiadau cyfoes yn y maes ac mae hyn yn rhoi sail dda a chyfeiriad i'r ddarpariaeth. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Mae ymddygiad yn cael ei reoli mewn ffordd sensitif a chadarnhaol iawn ac o ganlyniad mae'r plant yn dysgu tueddfrydau gydol oes gan gynnwys pwysigrwydd dangos parch, sensitifrwydd a charedigrwydd tuag at eraill.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o strategaethau dysgu diddorol i symbylu'r plant yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd da o gwestiynau pen agored i ymestyn dysgu'r plant a'u medrau meddwl ac mae hyblygrwydd yr addysgu yn cwrdd ag anghenion unigol y plant yn dda. Caiff y plant gyfleoedd da i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu a hyrwydda hyn yn dda eu hannibyniaeth a hunan hyder. Mae'r ymarferwyr yn rhoi digon o amser i'r plant i ymgolli yn eu profiadau dysgu, er enghraifft, wrth fynd allan i archwilio y tu allan ac nid ydynt yn ymyrryd oni bai bod cyfle i ymestyn y dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda iawn. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol a thrafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Maent yn bwydo'r wybodaeth a gasglwyd i mewn i'r cylch nesaf o gynllunio; gwelir effaith y wybodaeth hon yn y ddarpariaeth dda. Maent yn cadw cofnodion parhaus o gyraeddiadau'r plant sy'n cynnwys gwybodaeth drylwyr sydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad pob plentyn. Caiff cynnydd y plant ei fesur yn gyson ymhob maes dysgu ac mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Mae'r rhieni yn derbyn adroddiad cynhwysfawr am eu plant pan fyddant yn gadael i fynd i'r ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ymarferwyr wedi creu awyrgylch teuluol yn y lleoliad ac mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus a hapus iawn. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi ac mae'r ymarferwyr yn dangos parch tuag at eu syniadau a'u diddordebau.

Mae'r oedolion yn datblygu yn dda ymwybyddiaeth y plant o'r pwysigrwydd o fwyta'n iach ac o gadw'n heini. Caiff chwilfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu'n dda drwy ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd, Diwali a thrwy straeon a choginio bwyd o wledydd eraill. Mae'r oedolion yn datblygu'n dda iawn synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas drwy'r cyfleoedd niferus y maent yn rhoi i'r plant i archwilio eu hamgylchedd hardd fel y parc ac ymhellach i ffwrdd er enghraifft, Llynnoedd Garn a thrwy blannu a thyfu blodau a llysiau. Mae'r rhain yn cyfoethogi'n sylweddol profiadau'r plant ac yn nodweddion da

iawn. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd da i'r plant i ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy trwy roi ar wahân bwyd gwastraff ac ail-gylchu papur, plastig a chardfwrdd.

Mae'r oedolion yn meithrin y moesau hynny y maent yn credu sydd yn angenrheidiol i ddatblygiad pob plentyn. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd trwy ddilyn esiampl bersonol y staff a thrwy eu harweiniad cadarnhaol. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi'r plant i gymdeithasu'n dda, cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu yn eu cymuned fach. Trwy ymgymryd â phrofiadau diddorol, caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu perthynas gref gyda phobl eraill. Gwelir hyn yn y ffordd y maent yn dangos parch a goddefgarwch at bawb, gan gynnwys pobl o ddiwylliannau eraill.

Mae'r trefniadau effeithiol sy'n bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad a lles cyffredinol ac yn cefnogi eu dysgu. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda gan gynnwys eu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Serch hynny, ni chaiff eu datblygiad ysbrydol ei hyrwyddo cystal.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol ar gyfer diogelu plant ac mae'r staff yn ymwybodol ohono ac yn gwybod yn dda'r camau i'w cymryd. Mae pawb wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac mae'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer diogeli'n weithredol, yn bodloni rheoliadau diogelu ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Nid oedd yr un plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i gofrestru adeg yr arolwg ond mae trefniadau priodol yn eu lle i nodi anghenion plant o'r fath ac mae'r ymarferwyr yn gwybod yn dda sut i ymateb iddynt os bydd yr angen y codi.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ethos sy'n bodoli yn y lleoliad yn arbennig o gynhwysol a gofalgar ac wedi'i seilio'n gadarn ar anghenion y plentyn. Defnyddia'r ymarferwyr yr ystod eang o gefndiroedd y plant mewn ffordd ragorol a naturiol i ddathlu amrywiaeth ac o ganlyniad mae pob oedolyn a phlentyn yn oddefgar a charedig ac nid oes unrhyw bryder ar ran y plant. Mae perthnasoedd eithriadol o hoffus a gofalgar yn ffurfio'r sail i fywyd a gwaith y cylch. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion a'u diddordebau yn arbennig o dda. Mae'r system gweithwyr allweddol yn hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad plant yn gyson ac yn sicrhau cyfle cyfartal.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn rhagorol a chyfranna hyn, ynghyd ag adnoddau o ansawdd da iawn, yn helaeth at ragoriaeth yr amgylchedd ddysgu. Mae'r adeilad a'r adnoddau o safon uchel iawn a darparant amgylchedd dysgu sy'n atyniadol a chyffrous. Mae'r ardal o laswellt llethrog yn darparu cyfleoedd da iawn ar gyfer datblygu medrau datrys problemau'r plant wrth iddynt arbrofi gyda phethau gallant eu gwthio a thynnu a'u rholio. Mae'r gwahanol ardaloedd tu allan yn rhoi cyfleoedd gwych hefyd ar gyfer chwarae rôl ac mae'r ardal allanol yn cyfoethogi'u dysgu'n neilltuol ymhob maes dysgu. Mae'r lleoliad yn ymestyn ei ddefnydd integredig o ddysgu tu allan a dan do yn llwyddiannus iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn rhoi cyfarwyddyd clir a phendant i holl fywyd y lleoliad a'r broses o welliant ac mae'n llwyddo creu ethos cadarnhaol a hapus iawn. Mae hi'n cydweithio'n dda gyda'r dirprwy a'r ymarferwr ac maent yn rhannu egwyddorion ac amcanion clir sydd wedi'u seilio ar wybodaeth dda o ddatblygiad plentyn. Gwelir y rhain yn cael ei gweithredu trwy'r profiadau dysgu gweithredol ac ysgogol a gaiff y plant. Fe'u gwelwyd hefyd yn y cyfleoedd a roddir iddynt i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, magu hunan hyder ac annibyniaeth ac i wneud cynnydd da.

Mae pawb yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn gydwybodol iawn gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er lles y plant. Maent yn cydweithio'n dda wrth gynllunio'n strategol ar gyfer dyfodol y lleoliad. Mae'r arweinydd yn rhannu'r gwerthoedd, nodau ac amcanion y mae hi am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol a thrwy drafodaeth gyson. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'u hunan, o'r staff ac o'r plant yn ogystal â thargedau sy'n sicrhau safonau da o gyflawniad. Caiff cynnydd tuag at eu cyflawni ei fonitro'n gyson.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymwybodol o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad ac maent yn deall a chyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent yn gwybod yn dda am berfformiad y lleoliad a defnyddiant wybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn. Mae'r arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r awdurdod lleol, er enghraifft, gofynion y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'u hunan arfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn arwain at strategaethau ar gyfer gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Mae'r arweinydd yn ymgynghori gyda'r staff, rhieni a gofalwyr i fwydo'r hunan arfarnu. Mae'n defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth y rhieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu. Mae'n gwneud defnydd effeithiol hefyd o gefnogaeth athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol ac mae'r staff yn gweithredu ei hargymhellion yn effeithiol.

Yn sgîl y broses o hunan arfarnu, cynhyrchwyd cynllun gwella lleoliad sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o berfformiad y lleoliad ac sydd yn canolbwyntio ar godi safonau trwy osod targedau i wella'r ddarpariaeth. Caiff y rhain eu monitro'n gyson.

Mae'r ymarferwyr yn derbyn cyfweliad blynyddol gyda'r arweinydd i reoli perfformiad ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol. Maent yn mynychu cyrsiau hyfforddiant mewn-swydd yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn gyson er mwyn datblygu dulliau newydd tuag at addysgu. Gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu'r hyn y maent wedi dysgu. Mae'r arweinydd wedi ymweld â lleoliadau eraill i weld arfer dda ac mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd hyfforddiant gydag ymarferwyr eraill wedi'u trefnu gan yr awdurdod lleol i drafod datblygiadau cyfoes.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n dda gydag eraill i gyflwyno profiadau dysgu. Mae’r arweinydd yn gweithio yn agos ac effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol. Mae canlyniadau cadarnhaol o’r bartneriaeth hon i’w gweld yn y gwelliannau yn y ddarpariaeth a safonau.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n agos gyda'r rhanddeiliaid, yn enwedig y rhieni, ac y maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau ganddynt. Mae partneriaeth agos gyda’r ysgolion y’u bwydir hefyd sy’n hyrwyddo trosglwyddiad y plant pan fyddant yn gadael.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ymarferwyr yn cael eu lleoli’n dda er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o’u harbenigedd a sicrhau’r ddarpariaeth orau. Mae’r staff yn defnyddio adnoddau y tu fewn a thu allan yn effeithiol iawn er mwyn darparu profiadau diddorol ac ysgogol i’r plant. Maent yn mesur effaith yr adnoddau ar y dysgu a’r addysgu ac yn cynllunio’n dda ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol, er enghraifft, maent wedi cynnig am gymhorthdal i ddatblygu ymhellach yr ardal allanol i gynnwys cysgod a chyflenwad o ddŵr. Maent yn defnyddio’r awyr agored yn dda i ddatblygu medrau’r plant ymhob maes dysgu.

Gwna’r arweinwyr y defnydd gorau o adnoddau’r lleoliad ac o’r cyllid i gynnig y ddarpariaeth orau a llwyddant i wneud hyn. Mae’r lleoliad yn blaenoriaethu ei wariant i ymateb i’w dargedau ar gyfer gwelliant. Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu gwerthuso gan y pwyllgor rheoli er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol wrth godi safonau ac o ganlyniad, mae’r lleoliad yn rhoi gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhandaliad

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd un ar bymtheg o atebion i holiadur rhieni/ gwarchodwyr. Roedd bron pob un yn dweud eu bod yn hapus gyda darpariaeth y lleoliad. Yn ystod yr arolygiad rhoddwyd ystyriaeth i unrhyw gryfderau neu feysydd i'w gwella a nodwyd gan rieni. Cynhaliwyd trafodaethau gyda detholiad mawr o rieni ac fe wnaethant gadarnhau eu bod yn hapus gyda phob agwedd o'r ddarpariaeth.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Yn ystod yr arolygiad roedd plant yn awyddus iawn i ddod i'r feithrinfa ac aethant i gyd yn hyderus i weithgareddau o'u dewis. Mae eu perthnasau gyda'u ffrindiau ac oedolion yn rhagorol ac maent yn hynod o hapus yn y lleoliad. Roedd y plant oedd newydd ddechrau yn sefydlu perthynas glos yn gyflym gyda'u gweithwyr allweddol ac oedolion eraill ac roeddent yn amlwg yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ethos croesawgar a chynhwysol yn sicrhau eu bod oll yn teimlo'n hapus a diogel. Roeddent yn mwynhau siarad gydag oedolion gan gynnwys ymwelwyr ac yn gofyn ac ateb cwestiynau'n hyderus. Mae pob plentyn yn dangos ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth ac maent yn gwybod bod yr ymarferwyr yno i'w helpu.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Branwen Llewelyn Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

| Rhestr termau |
| --- |

| | |
| --- | --- |
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |

| | |
|---|---|
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |